

## Gwybodaeth

Ar hyn o bryd mae gwefan **bpas** ar gael yn Saesneg yn unig. Os hoffech chi siarad gyda rhywun nawr gallwch gysylltu â ni ar **03457 30 40 30**. Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU deialwch **+44 1789 416 569** os gwelwch yn dda.

### Ynglŷn â **bpas**

**Elusen** ddielw yw **bpas** a gofrestrwyd ym 1968 i ddarparu gwasanaeth erthylu diogel a chyfreithiol.

Heddiw mae **bpas** yn rhoi erthyladau i dros 55,000 o ferched bob blwyddyn – daw rhyw 4,000 o'r rhain o wledydd tramor.

Rydym yn deall y gallai hwn fod yn gyfnod anodd i chi, ac efallai eich bod yn pryderu ynglŷn â theithio i wlad arall, ond gallwn eich sicrhau chi y gwnaiff **bpas** bob dim yn ei allu i wneud y broses mor rhwydd â phosibl.

Medrwyd drefnu apwyntiadau **bpas** o dramor yn rhwydd ac yn gwbl gyfrinachol.

### Cysylltu â ni

Os hoffech chi drafod y gwahanol opsiynau yng nghyswllt terfynu beichiogrwydd, gallwn siarad â chi yn eich iaith eich hun heb hawlio unrhyw gost ychwanegol.

I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ffoniwch **bpas** ar **03457 30 40 30** os gwelwch yn dda. Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU deialwch **+44 1789 416 569** os gwelwch yn dda.

Os nad yw Saesneg yn famiaith i chi a'ch bod yn credu efallai y bydd angen help arnoch pan ddewch i'ch apwyntiad, gwnewch yn siŵr os gwelwch yn dda eich bod yn sôn am hyn wrth deffonydd **bpas**. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn wneud trefniadau priodol i gael cyfieithydd wrth law.

### Trefnu apwyntiad gyda **bpas**

Os ydych yn galw o'r tu allan i'r DU, ffoniwch **bpas** ar:

**+44 1789 416 569**

Mae'r llinellau ffôn ar agor (Amserau'r DU):

8yb i 9yh Llun-Gwener

8.30yb i 6yh ar ddydd Sadwrn

9.30yb i 2.30yp ar ddydd Sul

Neu mae modd i chi anfon neges e-bost atom i [info@bpas.org](mailto:info@bpas.org)

Gallwn gadarnhau manylion yr apwyntiad ar ddu a gwyn os hoffech chi (ac os oes amser i'r llythyr gyrraedd). Nodwch fod **bpas** yn anfon ei lythyrau mewn amlenni plaen.

Bydd y teleffonydd yn cadarnhau'r amser a'r fan lle hoffech chi gael eich apwyntiad ymgynghorol a'ch triniaeth. Nid oes rhestr aros ac, mewn sawl man, gallwch drefnu apwyntiad yn gynnar y bore, gyda'r hwyr neu ar y penwythnos.

Mae gan **bpas** ganolfannau yng Nghymru a Lloegr ac mae modd i chi benderfynu lle hoffech chi fynd. Cliciwch yma i weld y lleoliadau.

Bydd **bpas** hefyd yn rhoi cyngor ymarferol i chi ynglŷn â theithio i'r clinig a lle i aros. Mae **bpas** yn ddigon hyblyg i sicrhau apwyntiadau sy'n gyfleus i'ch bywyd beunyddiol.

**bpas** – mawr ei ofal, cyfrinachol, diogel, proffesiynol.